**RHYBUDD o benderfyniadau cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn Rhithiol drwy Zoom ddydd Mawrth, 27 Ionawr, 2026.**

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Gwener, 30 Ionawr, 2026. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ddydd Gwener, 6 Chwefror, 2026.Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Llun, 9 Chwefror, 2026.

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd), Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Ieuan Williams a Robin Williams.

**Hefyd yn Bresennol:** Y Cynghorwyr Jeff Evans (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Kenneth Hughes.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Neville Evans

(10:00 a.m. to 11:20 a.m.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod yn gywir -**<br>• **16 Rhagfyr 2025**<br>• **6 Ionawr 2026 (arbennig)** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru ar gyfer y cyfnod rhwng Chwefror a Medi 2026 gyda'r newidiadau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Cyllideb Refeniw Ddrafft 2026/27**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Y gyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2026/27 o £207.023m.**<br>• **Cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 4.8%, ynghyd â 0.3% ar gyfer Ardoll y Gwasanaeth Tân, sy'n gyfanswm o 5.1%, gan olygu fod y gost i eiddo Band D yn £1,792.98.**<br>• **Cynnig yn ffurfiol i gadw'r premiwm ar gartrefi gwag ac ail gartrefi yn 100%.**<br>• **Bod £1.685m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor a'r arian wrth gefn a glustnodwyd er mwyn cyd-bwyso cyllideb refeniw 2026/27.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gynnig Cyllideb Refeniw ddrafft gychwynnol ar gyfer 2026/27.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Mae'r cynigion ar gyfer y gyllideb refeniw ddrafft yn mynd allan am ymgynghoriad. Bydd y gyllideb** |

| | |
|---|---|
| | **refeniw ar gyfer 2026/27 yn cael ei phenderfynu gan y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 7 **Strategaeth Gyfalaf 2026 – 2031**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell y Strategaeth Gyfalaf 2026 - 2031 i'r Cyngor Llawn.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mae mabwysiadu Strategaeth Gyfalaf yn ofyniad yn ôl Cod Materion Ariannol CIPFA.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn destun cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 8 **Premiwm y Dreth Gyngor**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>• **Nodi canlyniad yr ymgynghoriad ar Bremiwm y Dreth Gyngor.**<br>• **Cymeradwyo Opsiwn 5 fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2027 - gosod lefel y premiwm yn seiliedig ar y cyfnod y mae'r eiddo wedi bod yn wag o'r dyddiad y daeth yn wag ond gan ddechrau â phremiwm o 100%.**<br>• **Bod y Pwyllgor Gwaith yn ystyried sut y dylid dyrannu'r incwm cysylltiedig yn unol â blaenoriaethau strategol y Cyngor.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I adolygu Premiwm y Dreth Gyngor ar eiddo gwag.** |

| | |
|---|---|
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Datganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnol gan y Cynghorydd Dafydd Roberts a Mr Marc Jones, y Cyfarwyddwr (Adnoddau)/Swyddog Adran 151. Gadawodd y ddau yr ystafell pan oedd yr eitem yn cael ei thrafod.** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Di-breswyl yn y Gymuned – Ffioedd a Thaliadau 2026/27**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol -**<br>• **Codi'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cartref.**<br>• **Y taliadau ar gyfer gwasanaethau Teleofal, fel yr amlinellir yn Nhabl A yr adroddiad:**<br>  • **Haen 1 – bydd pawb yn talu £81.25 y chwarter**<br>  • **Haen 2 – bydd pawb yn talu £159.25 y chwarter**<br>• **Y taliadau blynyddol ar gyfer gwasanaethau Teleofal, fel yr amlinellir yn Nhabl B yr adroddiad:**<br>  • **Gwasanaethau a Chynnal a Chadw £147.95**<br>  • **Gwasanaethau yn unig £95.00**<br>  • **Costau gosod unwaith ac am byth £59.20**<br>• **Cyfradd o £17.85 yr awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol**<br>• **Gweithredu tâl o £20.00 yr awr ar gyfer Micro Ofalwyr**<br>• **Cadw'r taliad o £10.00 ar gyfer gweinyddu ceisiadau am Fathodynnau Glas a darparu bathodynnau newydd fel yr amlinellwyd** |

| | |
|---|---|
| | • **Cynnydd o 3.8%, i £46.85 y dydd, yn y ffi ar gyfer prynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol**<br>• **Cynnydd o £1.38 yr awr yn y ffioedd Gofal Cartref, i gyd-fynd â'r cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol**<br>• **Y taliadau ar gyfer Prydau Bwyd mewn Gwasanaethau Dydd, fel yr amlinellir yn Nhabl C yr adroddiad:**<br>  ◦ **Prydau mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) - £8.10**<br>  ◦ **Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu - £3.45**<br>  ◦ **Lluniaeth arall (te / coffi / teisen) mewn Gwasanaethau Dydd - £1.95** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gosod ffioedd a thaliadau ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned ar gyfer 2026/27** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Rhan o'r broses o osod y gyllideb a benderfynir gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Cartrefi'r Awdurdod Lleol i Bobl Hyn - Pennu'r Ffi Safonol 2026/27**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Mai'r ffi safonol ar gyfer cartrefi preswyl yw £1,026.52 yr wythnos, sef y gost lawn am y gwasanaeth.**<br>• **Oherwydd y cytunwyd yn 2025/26 fod cost lawn y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno dros gyfnod o 3 blynedd, caiff cost lawn y gwasanaeth gofal preswyl dementia ei ostwng i £1,150.99 yr wythnos yn 2026/27.** |

| | |
|---|---|
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gosod lefel y ffi safonol ar gyfer cartrefi gofal yr Awdurdod yn 2026/27 yn unol â'r gofyniad statudol.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Cynllun Tuag at Sero Net 2026-2031** Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu'r Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2026-2031.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gefnogi uchelgais y Cyngor i fod yn sefydliad sero net.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |